# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 25 Hydref i 1 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau


## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cydlynu Cynlluniau Wrth Gefn

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â'r Swyddfa Gartref ynghylch cydlynu cynlluniau wrth gefn ar gyfer y gwasanaethau brys yng Nghymru o ganlyniad i'r digwyddiadau erchyll ar 11 Medi 2001? (WAQ13162)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn goruchwylio'r gwaith ar gydlynu cynlluniau wrth gefn fel Cadeirydd y Pwyllgor Paratoadau Sifil. Prif swyddogaeth y Pwyllgor Paratoadau Sifil yw sicrhau bod y trefniadau wrth gefn yn gadarn, a chydlynu'r holl asiantaethau gwahanol sy'n gysylltiedig. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau yn mynychu'r Pwyllgor ac rydym yn rhan o'r gweithgarwch cynllunio er mwyn cynrychioli buddiannau Cymru.

Swyddfa'r Cabinet sydd bellach yn bennaf gyfrifol am gynlluniau wrth gefn sifil yn y DU. Mae fy swyddogion yn cydweithio â Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill Llywodraeth y DU yn hyn o beth. Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r gymuned cynllunio brys yng Nghymru.

### Paratoi 'Cynllun ar Gyfer Cymru 2001'

**Lynne Neagle:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am hynt y gwaith o baratoi ‘Cynllun ar gyfer Cymru 2001’? (WAQ13163)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyhoeddwyd datganiad ar baratoi ‘Cynllun i Gymru 2001’ ym mis Gorffennaf ar gyfer rhoi sylwadau arno. Yn gyffredinol, croesawyd y ddogfen gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a chan y cyhoedd. Ystyrir yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn wrth baratoi'r ddogfen derfynol.

Bydd y cynllun terfynol yn gosod agenda radical ar gyfer newid a bydd yn cynnig cofnod clir a chryno o'r hyn yr ydym o'i blaid a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni hynny.

### Costau Hysbysebu am Ymgynghoryddion Arbennig i’r Democratiaid Rhyddfrydol

**Glyn Davies:** Faint o gost llawn hysbysebu yn y *Liberal Democrat News* am ymgynghoryddion arbennig i’r Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi’i had-dalu yn dilyn y cyhoeddusrwydd a roddwyd i’r taliad? (WAQ13164)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim.

### Creu Ymddiriedolaeth Ddi-elw yn Lle Railtrack

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a’r Rhanbarthau ynghylch effaith y cynnig i greu ymddiriedolaeth ddi-elw yn lle Railtrack ar bwerau’r Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ13224)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi trafod sefyllfa Railtrack gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a’r Rhanbarthau ac yr wyf wedi amlinellu'r cyffelybiaethau posibl rhwng cael cwmni dielw i olynu Railtrack a Glas Cymru.

Soniodd Sue Essex wrth Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 17 Hydref y byddwn yn sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hadlewyrchu mewn unrhyw newidiadau deddfwriaethol a allai ddeillio o ailstrwythuro cyrff rheilffyrdd presennol.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd

### Adfywio Cymunedau yr Effeithiwyd arnynt gan Golledion Swyddi yng Nweithfeydd Corus

**Lynne Neagle:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar adfywio’r cymunedau sydd wedi dioddef yn sgil y swyddi a gollwyd yng ngweithfeydd dur Corus? (WAQ13136)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae paratoi fframwaith adfywio de-ddwyrain Cymru a rhaglenni lleol ar gyfer Blaenau Gwent a Chasnewydd bron â dod i ben. Bydd strategaethau drafft ar gael erbyn diwedd mis Hydref, a rhaglenni prosiect manwl wedi eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr. Bydd y fframwaith yn nodi prosiectau strategol allweddol a fydd, yn sgîl newid economaidd byd-eang, yn cyfrannu at adfywio'r isranbarth mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y fframwaith a'r rhaglenni lleol yn blaenoriaethu prosiectau ar gyfer creu gwaith, hyfforddiant ac addysg, seilwaith, tai ac adfywio cymunedol. Nodir prosiectau ar gyfer nawr, y tymor byr, canolig a hir er mwyn helpu i sicrhau y caiff y cymunedau hynny sydd wedi dioddef yn sgîl cau gweithfeydd Corus eu hadfywio mewn ffordd gynaliadwy.

## Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw newidiadau i'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol? (WAQ13137)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn cael ei hailysgrifennu yn sgîl y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystyried fersiwn drafft ar 31 Hydref.

## Effaith Terfysgaeth ar Dwristiaeth yng Nghymru

**Glyn Davies:** A oes unrhyw asesiadau wedi'u gwneud o effaith yr argyfwng terfysgaeth ryngwladol ar economi twristiaeth Cymru? (WAQ13138)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar hyn o bryd mae Bwrdd Croeso Cymru yn amcangyfrif y bydd effaith ariannol gostyngiad yn nifer y twristiaid rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru rhwng £20 miliwn a £30 miliwn eleni, a thua £40 miliwn yn 2002. Ar hyn o bryd mae'r bwrdd yn ystyried ei ymateb i'r amgylchiadau newydd.

## Merched sy'n Mentro Mewn Busnes

**Lorraine Barrett:** A all Prif Weinidog Cymru ddweud wrthyf pa gymorth y mae merched sy'n mentro mewn busnes yn ei gael ar hyn o bryd? (WAQ13139)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae hon yn flaenoriaeth allweddol sy'n mynd rhagddi fel rhan o'r cynllun i roi'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth ar waith. Mae'n cynnwys nifer o gynlluniau fel prosiect menter menywod Cymru Amcan 1 a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n cael ei reoli gan Chwarae Teg, a menywod i fusnes, prosiect sydd wedi cael ei arwain gan Fusnes mewn Ffocws er mwyn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar hyfforddiant. Fodd bynnag, mae potensial i wneud llawer mwy a datblygu cynlluniau lleol llwyddiannus eraill, ac eir ar drywydd hyn yn frwd.

Ar ben hynny, mae'r rhaglen dechrau busnes newydd sy'n cael ei rheoli gan Awdurdod Datblygu Cymru

yn ogystal â'r rhwydwaith Cyswllt Busnes yn agored i bawb ac maent yn darparu amrywiaeth eang o gyngor a chefnogaeth i fenywod sy'n ddarpar entrepreneuriaid.

## Colledion Swyddi yn y Diwydiant Dur

**William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar hynt y mentrau a gyflwynwyd i fynd i’r afael ag effaith y swyddi a gollwyd yn y diwydiant dur? (WAQ13140)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae paratoi fframwaith adfywio de-ddwyrain Cymru a rhaglenni lleol ar gyfer Blaenau Gwent a Chasnewydd bron â dod i ben. Bydd strategaethau drafft ar gael erbyn diwedd mis Hydref, a rhaglenni prosiect manwl wedi eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr. Bydd y fframwaith yn nodi prosiectau strategol allweddol a fydd, yn sgîl newid economaidd byd-eang, yn cyfrannu at adfywio'r isranbarth mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y rhaglenni lleol ar gyfer Blaenau Gwent a Chasnewydd yn targedu'r cyfleoedd a ddarperir gan yr economi newydd er mwyn sicrhau bod cymaint o swyddi newydd yn cael eu creu ag sy'n bosibl. Bydd y rhaglenni yn nodi cynlluniau cyflogaeth, hyfforddiant a seilwaith a byddant yn ystyried yn fanwl sut y gellir defnyddio safleoedd Corus yn y dyfodol.

## Adfywio Twristiaeth yng Nghymru

**William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi braslun o’r mesurau sy’n cael eu hystyried i adfywio’r diwydiannau twristiaeth yng Nghymru? (WAQ13141)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae mesurau ar gyfer helpu i adfywio'r diwydiant twristiaeth yn rhan o'n cynllun adfer cefn gwlad ac mae tua £5.3 miliwn wedi cael ei dargedu ar gyfer cynlluniau marchnata a chyfalaf penodol eleni drwy Fwrdd Croeso Cymru. Ar ben hyn, mae'r Cynulliad newydd ychwanegu £2.2 miliwn at gyllideb gwaelodlin y bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r bwrdd hefyd yn adolygu ei weithgareddau marchnata mewn perthynas â'r pryderon presennol am derfysgaeth.

## Diwydiannau Awyrennau a Diwydiannau Cynhyrchu Cysylltiedig

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y sefyllfa bresennol o ran swyddi yn y diwydiannau awyrennau a’r diwydiannau cynhyrchu cysylltiedig yng Nghymru? (WAQ13142)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn pryderu am ein sector aerofod a diwydiannau cysylltiedig ac yr wyf wedi siarad yn bersonol â nifer o'r cwmnïau hyn. Yr wyf wedi clywed o lygad y ffynnon am yr anawsterau sydd yn eu hwynebu ac yr wyf yn gwerthfawrogi eu cynlluniau i wrthweithio problemau tymor byr y farchnad. Mae'r cwmnïau hyn yn gwerthuso eu statws masnachol a byddant yn rhoi gwybod i mi am unrhyw ddatblygiadau. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu Cymru hefyd yn monitro'r sefyllfa'n ofalus.

## Ymestyn y Rhedfa yn Sain Tathan

**David Melding:** A yw Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnal astudiaeth i'r posibilrwydd o ymestyn y rhedfa yn Sain Tathan fel ffordd o gadw'r Asiantaeth Atgywerio Afioneg Amddiffyn yno? (WAQ13143)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Is-adran Tir Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio'n agos â DARA ac Ystadau Amddiffyn i werthuso cynnig i uwchraddio a moderneiddio'r cyfleusterau yn Sain Tathan, er mwyn galluogi DARA i aros yng Nghymru.

Gwrthodwyd y cynnig gwreiddiol i adleoli DARA ym maes awyr rhyngwladol Caerdydd, gan fod astudiaeth wedi dangos y byddai costau economaidd ac amgylcheddol adleoli yn y maes awyr yn eithriadol o uchel.

Ar hyn o bryd, mae'r Is-adran Tir yn cynnal astudiaeth i weld pa mor ymarferol fyddai ymestyn y rhedfa.

## Effaith Terfysgaeth ar Economi Cymru

**Peter Black:** A wnaed unrhyw asesiad o effaith ymosodiadau'r terfysgwyr ar America a chanlyniad hyn ar economi Cymru? (WAQ13145)

**Prif Weinidog Cymru:** Gyda golwg ar yr economi ehangach, mae hi'n rhy gynnar i asesu'n llawn effeithiau ymosodiadau'r terfysgwyr yn Unol Daleithiau'r America ar economi Cymru ac economi'r DU. Mae Cymru'n dibynnu'n fwy ar weithgynhyrchu ond nid ydym yn dibynnu gymaint ar farchnadoedd allforio'r UDA ag y mae'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU, ond disgwyliwn y bydd hyn yn effeithio ar y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r sector aerofod yn destun pryder penodol ac mae nifer o'r cwmnïau hyn wedi cael trafodaethau gyda ni. Mae'r cwmnïau hyn yn monitro eu sefyllfaoedd yn ofalus ac maent yn rhoi gwybod i mi am unrhyw ddatblygiadau.

Rhagwelir y bydd effaith sylweddol ar dwristiaeth yn y tymor byr yn ogystal ag yn y tymor hir. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn adolygu ei ymgyrchoedd marchnata arfaethedig yn yr UDA. Mae'n debygol y bydd gweithgareddau arfaethedig y bwrdd yn Ewrop yn parhau ac y cynyddir y gwaith marchnata yn y DU.

## Effaith 11 Medi ar y Diwydiant Aerofod yng Nghymru

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Adran dros Fasnach a Diwydiant, yr Undeb Ewropeaidd a chyrff yn y diwydiant am yr effaith ar swyddi yn y diwydiant aerofod yng Nghymru ar ôl y digwyddiadau ar 11 Medi? (WAQ13146)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Masnach a Diwydiant, Awdurdod Datblygu Cymru, asiantaethau eraill a'r sector preifat i asesu'r goblygiadau economaidd i Gymru yn dilyn ymosodiadau'r terfysgwyr ar yr UDA. Yr wyf yn pryderu yn benodol am ein sector aerofod ac yr wyf wedi siarad yn bersonol â nifer o'r cwmnïau hyn. Yr wyf wedi clywed o lygad y ffynnon am yr anawsterau sydd yn eu hwynebu ac yr wyf yn gwerthfawrogi eu

cynlluniau. Mae'r cwmnïau hyn yn monitro eu sefyllfaoedd yn ofalus ac maent wedi ymrwymo i ddweud wrthyf am unrhyw ddatblygiadau.

### Lleoli Ikea yng Nghaerdydd

**Peter Black:** Pa ran a chwaraeodd Awdurdod Datblygu Cymru ym mhenderfyniad Ikea i leoli eu siop newydd yng Nghaerdydd? (WAQ13167)

**Peter Black:** Pa gymorth/mentrau ariannol a gynigiwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru a/neu Cyngor Dinas a Sir Caerdydd i sicrhau datblygiad siop Ikea? (WAQ13168)

**Peter Black:** Pa gyngor a roddwyd i Ikea gan Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch lleoliadau addas ar gyfer eu siop? (WAQ13169

**Prif Weinidog Cymru:** Gofynnodd Ikea am farn Is-adran Tir Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch darpar leoliadau ledled Cymru i leoli siop newydd yn ystod ei ymarfer i ddod o hyd i safle. Nid oedd gan yr Is-adran Tir gysylltiad o ran lleoli'r siop yn y safle arfaethedig. Ni chynigiwyd cymorth na chymhelliant ariannol i Ikea. Penderfyniad masnachol oedd lleoli'r siop Ikea newydd yng Nghaerdydd.

### Isadeiledd ar gyfer Cwpan Ryder

**Alun Cairns:** Pa isadeiledd y mae’r Prif Weinidog yn bwriadu ei gyflwyno o ganlyniad i ennill y cynnig ar gyfer Cwpan Ryder ar gyfer 2010? (WAQ13196)

**Prif Weinidog Cymru:** Hyrwyddwyr y digwyddiad sy'n gyfrifol am drafod hyn gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd a'r Asiantaeth Briffyrdd yn Lloegr er mwyn nodi a oes angen unrhyw welliannau i'r isadeiledd. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol, fel yr awdurdod priffyrdd dros gefnffyrdd a thraffyrdd Cymru, yn datblygu strategaeth reoli ar gyfer traffig y digwyddiad. Bydd gwella'r arwyddion gyda negeseuon amrywiol arnynt ar briffyrdd, sy'n cael eu codi ar hyn o bryd, yn cynorthwyo yn hyn o beth. Roedd maes parcio oddi ar y safle gyda gwasanaethau bysiau gwennol yn rhan bwysig o'r cynnig llwyddiannus.

### Cysylltedd ADSL a Band Llydan ym Mharc Busnes Menai

**Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gysylltedd llinell danysgrifio ddigidol anghymesur ym Mharc Busnes Menai, Bangor? (WAQ13220)

**Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gysylltedd band llydan y rhyngrwyd ym Mharc Busnes Menai, Bangor? (WAQ13221)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benderfynol o sicrhau y bydd manteision technolegau band llydan yn cyrraedd pob cwr o Gymru a bydd nifer o gynlluniau, sydd ar y

gweill ac sydd eisoes ar waith, yn mynd â hyn rhagddo. Ar hyn o bryd, mae gan gwmnïau ym Mharc Busnes Menai fynediad ym mhobman at dechnolegau band llydan drwy linellau ar les sy'n cynnig gwasanaethau rhwng 2 megabeit a 622 megabeit yr eiliad. Drwy ddefnyddio cronfeydd Ewropeaidd mae gwasanaethau lled band uwch ADSL wedi cael eu cyflwyno ym Mangor yn rhan o brosiect haen 6 Llwybr/Pathway, y mae'r Cynulliad wedi bod yn gwbl gefnogol iddo. Fodd bynnag, er mwyn derbyn ADSL, mae'n rhaid i'r derbynnydd fod o fewn pellter penodol i'r gyfnewidfa awdurdodedig ac felly bydd cyflwyno ADSL i gwmnïau ym Mharc Busnes Menai yn dibynnu ar brofi'r linell. Yn sgîl datblygiadau diweddar mewn technoleg addasu cyfraddau, mae'r pellter hwyaf o'r gyfnewidfa ar gyfer derbyn gwasanaethau ADSL wedi cynyddu o 3.5km i 5.5km.

## Arolygon Marchnata Amcan 1

**Peter Rogers:** Faint o arian a wariwyd ar arolygon marchnata yng ngogledd Cymru mewn perthynas â rhaglen Amcan 1? (WAQ13222)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi gwario unrhyw arian ar arolygon marchnata yng ngogledd Cymru. Nid yw'r wybodaeth am faint y mae partneriaid eraill wedi ei wario yn y broses Amcan 1 ar gael yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Effaith Grant Ymarfer Dysgu ar Recriwtio

**Jonathan Morgan:** Pa effaith y mae'r grant ymarfer dysgu wedi'i gael o ran recriwtio graddedigion ychwanegol i'r proffesiwn dysgu? (WAQ13120)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cyflwynwyd grantiau hyfforddi athrawon ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol ôl-raddedig i athrawon uwchradd ym Medi 2000 a chawsant eu hymestyn i gynnwys pob cwrs ôl-raddedig o Fedi 2001 ymlaen.

Ni wyddom eto beth yw effaith lawn y grantiau ar nifer y graddedigion sy'n gwneud cais am hyfforddiant athrawon ôl-raddedig ac sydd yna yn mynd ymlaen i'r proffesiwn. Nid yw pawb sy'n cwblhau'r hyfforddiant athrawon yn dechrau swydd dysgu ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r nifer a ddechreuodd hyfforddiant uwchradd ôl-raddedig ym Medi 2000 wedi codi 192, neu bron i 20 y cant o'i gymharu â 1999.

Ym mis Tachwedd 2000, cyhoeddais y byddwn yn adolygu effaith y cymhelliannau hyn, ac y byddai grantiau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig uwchradd ar gael hyd at ( a chan gynnwys) o leiaf 2003-04.

## Diddymu Ystafelloedd Dosbarth Symudol nad ydynt yn Bodloni'r Safon

**Jonathan Morgan:** Yn unol â’r cytundeb partneriaeth, pryd y ceir gwared yn raddol ar bob ystafell ddosbarth symudol sydd heb fod yn bodloni’r safonau angenrheidiol? (WAQ13121)

**Jane Davidson:** Bydd bron i £300 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael ar gyfer gwella adeiladau ysgolion dros y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Disgwyliaf i awdurdodau lleol fod wedi cymryd camau breision i leihau'r ôl-groniad o waith atgyweirio ysgolion yng Nghymru dros y cyfnod hwnnw, gan gynnwys cael gwared ar ddosbarthiadau symudol nad ydynt yn bodloni’r safonau angenrheidiol.

## Defnyddio Arian y Loteri i Ddiogelu Adeiladau Ysgolion rhag Cael eu Llosgi

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio arian y loteri i helpu i ddiogelu adeiladau ysgolion yng Nghymru rhag cael eu llosgi’n fwriadol? (WAQ13158)

**Ann Jones:** Faint o achosion o losgi bwriadol a welwyd mewn ysgolion yn ardal pob awdurdod addysg llywodraeth lleol yng Nghymru yn ystod pob un o’r tair blynedd diwethaf? (WAQ13159)

**Ann Jones:** Beth oedd cyfanswm cost achosion o losgi bwriadol yn ardal pob awdurdod addysg lleol yng Nghymru yn ystod pob un o’r tair blynedd diwethaf? (WAQ13160)

**Jane Davidson:** Nid wyf yn ymwybodol bod arian loteri ar gael i ddiogelu adeiladau ysgolion rhag cael eu llosgi. Ni chedwir yr wybodaeth am nifer yr achosion o losgi bwriadol mewn ysgolion a'u cost yn ganolog.

## Cyllido Swyddogion Datblygu ar Gyfer y Sgowtiaid

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog sylwadau ar unrhyw gynlluniau i gyllido swyddogion datblygu amser llawn ar gyfer Cymdeithas y Sgowtiaid? (WAQ13208)

**Jane Davidson:** Cymdeithas y Sgowtiaid ei hun sydd i benderfynu ar y mater hwn fel rhan o'i datblygiad parhaus a'i hagwedd broffesiynol tuag at ei rhaglenni ar sail gwerthoedd.

## Polisi ar Ysgolion Gwledig (Cyhoeddi)

**Jonathan Morgan:** Pryd bydd y Cynulliad yn cyhoeddi ei bolisi ar ysgolion gwledig? (WAQ13210)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn bwriadu cyflwyno papur i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 31 Hydref. Ar ôl iddo ystyried y papur hwnnw, ymgynghorir ag awdurdodau addysg lleol ac eraill ar yr arweiniad diwygiedig.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Rheoli Gwastraff

**Ieuan Wyn Jones:** Pryd y cychwynnir yr ymgynghori ar Reoliadau Trwyddedu Gwastraff 1994? (WAQ13123)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Tybiaf eich bod yn cyfeirio at gynigion i ddiwygio rheoliadau 1994 mewn perthynas ag eithrio o drwyddedu rheoli gwastraff. Disgwyliaf y cynhelir ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar y cyd rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ddiweddarach eleni.

### Camlas y Shropshire Union

**Glyn Davies:** Pa fudd economaidd a gaiff Cymru o adnewyddu cangen Sir Drefaldwyn o gamlas y Shropshire union i safon fordwyol hyd at ei chysylltiad â chamlas y Shropshire union a’r rhwydwaith cenedlaethol o gamlesi? (WAQ13127)

**Sue Essex:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw asesiad a gynhaliwyd ar fuddiannau economaidd adfer cangen Sir Drefaldwyn o Gamlas y Shropshire union.

### Argymhellion yn ‘Waterways for Tomorrow’

**Glyn Davies:** A yw’r Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn argymhellion y ddogfen ‘Waterways for Tomorrow’ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth ei Mawrhydi ym mis Mehefin 2000? (WAQ13128)

**Sue Essex:** Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau datganoledig sy'n ymwneud â rheoli dyfrffyrdd Prydain. Ymgynghorwyd â mi ynghylch dogfen ymgynghori Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ‘Waterways for Tomorrow’ ac fe'i cefnogais. Cyhoeddwyd y papur ym mis Mehefin 2000 ac roedd yn gosod cynigion y Llywodraeth ganolog i ddatblygu dyfrffyrdd mewndirol, gan hybu dull modern, integredig a chynaliadwy o'u defnyddio. Ers hynny, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad nodyn cyngor technegol canllawiau cynllunio drafft, TAN 18, sy'n ailadrodd yr egwyddorion sylfaenol sydd ym mhapur Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae'r nodyn cyngor technegol yn annog awdurdodau lleol i gynnwys cynigion yn eu cynlluniau datblygu unedol ar gyfer datblygu potensial unrhyw ddyfrffyrdd mewndirol, gan ymgynghori â Dyfrffyrdd Prydain pan fo hynny'n briodol.

Mae ‘Waterways for Tomorrow’ yn mynnu bod awdurdodau priffyrdd yn ystyried camlesi wrth iddynt ddylunio eu cynlluniau. Mae'r canllaw dylunio ar gyfer ffyrdd a phontydd wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar gan fynnu bod yn rhaid ystyried effaith cynlluniau priffyrdd ar brosiectau adfer dyfrffyrdd o'r

cychwyn cyntaf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid nodi'r prosiectau dyfrffyrdd perthnasol ar ddechrau'r broses asesiad amgylcheddol ac ystyried yr effeithiau posibl.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn gweinyddu cynllun grant cyfleusterau cludo sy'n cynnig cymhelliant ariannol i symud nwyddau oddi ar y ffyrdd i'r dyfrffyrdd mewndirol. Mae grantiau o hyd at 50 y cant o'r costau cyfalaf cymeradwy ar gael i gydnabod y manteision amgylcheddol a fyddai'n deillio o gael gwared ar draffig trwm lorïau oddi ar ein ffyrdd.

## Cangen Sir Drefaldwyn o Gamlas y Shropshire Union

**Glyn Davies:** A yw’r Gweinidog yn cytuno y dylai gwelliannau i’r priffyrdd gymryd i ystyriaeth yr effaith a gaiff y cynlluniau i adnewyddu cangen Sir Drefaldwyn o gamlas y Shropshire union? (WAQ13129)

**Sue Essex:** Mae Deddf Seneddol 1987 yn rhoi pwerau ar gyfer adfer cangen Sir Drefaldwyn o Gamlas y Shropshire union. Ar hyn o bryd, mae gwelliannau arfaethedig i'r gefnffordd yn ystyried y gwaith adfer hwn, fel a ddiffinnir yn Neddf 1987, ac nid oes gan y gwelliannau effaith andwyol ar y gwaith adfer.

## Dyfodol Rhwydwaith y Rheilffyrdd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r trafodaethau y mae wedi’u cael ynghylch dyfodol y rheilffyrdd a rheolaeth y rhwydwaith cledrau yng Nghymru? (WAQ13149)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr allweddol o'r diwydiant rheilffordd, ac mae Prif Weinidog Cymru wedi trafod dyfodol Railtrack gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

Yr wyf yn cefnogi barn Mr Byers y dylai rhwydwaith y rheilffyrdd gael ei redeg yn y dyfodol gan gwmni preifat heb gyfranddalwyr—'cwmni cyfyngedig dan warant', a buddiannau'r cyhoedd sy'n teithio yn flaenoriaeth iddo.

Mae'n rhaid sicrhau bod seilwaith y rheilffyrdd wedi'i gydlynu'n iawn er mwyn gallu ei reoli'n effeithiol. Yr wyf fi, ynghyd â Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau a byddwn yn sicrhau bod yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn cael gwybod am fuddiannau Cymru. Ein prif nod ar hyn o bryd yw sicrhau ein bod yn sicrhau masnachfraint Cymru a'r Gororau er mwyn i ni wella gwasanaethau'r rheilffyrdd yng Nghymru.

## Adolygiad Ynni

**Helen Mary Jones:** A all y Gweinidog nodi sut y bydd yr adolygiad ynni sydd ar y gweill yn bwydo ac yn cael ei fwydo gan y broses o ailddrafftio Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy a ‘Polisi Cynllunio Cymru’? (WAQ13150)

**Sue Essex:** Fe'ch atebaf yn uniongyrchol maes o law.

## Rheoliadau ar Ddefnydd Jetiau Sgi

**Ieuan Wyn Jones:**A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch yr angen am reoliadau cenedlaethol i reoli'r defnydd o jetiau sgi? (WAQ13151)

**Sue Essex:** Ar wahân i'ch gohebiaeth chi, yr wyf wedi derbyn llythyr gan Betty Williams, Aelod Seneddol Conwy, a dau lythyr gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau mewn perthynas â'r newidiadau sylfaenol ac eilradd mewn deddfwriaeth a gynigiwyd yn 'Review of Byelaw Powers for the Coast' er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system llunio is-ddeddfwriaeth leol.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth i fynd â'r newidiadau arfaethedig rhagddynt.

## Railtrack

**Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sefyllfa Railtrack? (WAQ13152)

**Sue Essex:** Mae Prif Weinidog Cymru wedi trafod y sefyllfa gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth leol a'r Rhanbarthau ac amlinellodd y cyffelybiaethau posibl rhwng cwmni olynol dielw Railtrack a Glas Cymru. Soniais yng nghyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 17 Hydref y byddwn yn sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hadlewyrchu mewn unrhyw newidiadau deddfwriaethol a allai ddeillio o ailstrwythuro cyrff rheilffyrdd presennol.

## Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

**Cynog Dafis:** A all y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy? (WAQ13153)

**Sue Essex:** Fel y pleidleisiwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth eleni, caiff gweithredu'r cynllun datblygu cynaliadwy ei fesur drwy ei gymharu â'r cynllun gweithredu, a byddwn yn rhoi gwybod am y datblygiadau o ran rhoi'r cynllun ar waith yn ein hadroddiad statudol blynyddol cyntaf, a fydd yn cael ei baratoi'r hydref hwn.

## Cynhyrchu Ynni Cynaliadwy

**Cynog Dafis:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran llunio fframwaith cynllunio i hybu cynhyrchu ynni cynaliadwy? (WAQ13154)

**Sue Essex:** Cynhwysir y fframwaith cynllunio newydd ar gyfer ynni cynaliadwy ym 'Mholisi Cynllunio Cymru', a gyhoeddir yn ei ffurf derfynol ym mis Mawrth 2002, a Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy, a gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ddechrau'r flwyddyn nesaf. Amlinellwyd y cefndir i'r adolygiad o nodyn cyngor technegol 8 yn yr atebion i gwestiwn ysgrifenedig WAQ9774 a'r cwestiynau llafar OAQ11626 ac OAQ11627.

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cael ei ail ddrafftio ar y sail y dylai'r system gynllunio hwyluso datblygu pob math o ynni adnewyddadwy, a chyn belled ag y bo modd, ddylanwadu ar leihau faint o ynni a ddefnyddir, lle gellir cyflawni'r amcanion hyn mewn ffordd sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol dderbyniol. Bydd 'Polisi Cynllunio Cymru' yn adlewyrchu'r egwyddorion arweiniol hyn ar gyfer pob technoleg ac yn annog awdurdodau cynllunio lleol i geisio dod o hyd i gyfleoedd i integreiddio ynni adnewyddadwy, a hyrwyddo defnyddio llai o ynni, wrth ddylunio datblygiadau newydd.

Mae nodyn cyngor technegol 8 yn cael ei ddiwygio gyda chymorth grwp ymgynghorol technegol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sydd â diddordeb yn hyn o beth. Mae gwaith yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd i nodi, a deall yn fanylach, yr elfennau sy'n angenrheidiol er mwyn symud ymlaen at agwedd fwy gofodol tuag at bolisi ac arweiniad cynllunio cenedlaethol. Bydd swyddogion yn cynhyrchu nodyn cyngor technegol drafft i'r grwp ymgynghorol technegol ei ystyried cyn diwedd y flwyddyn. Cyhoeddir drafft llawn ar gyfer ymgynghoriad ddechrau flwyddyn nesaf.

## Arwyddion Cyfeirio ar Brif Ffyrdd

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu nifer yr arwyddion cyfeirio ar brif ffyrdd? (WAQ13155)

**Sue Essex:** Mae arwyddion cyfeirio ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau cysondeb yr arwyddion a darparu ar gyfer sefyllfaoedd newydd. Mae hi'n bwysig dod o hyd i gydbwysedd rhwng arwyddion sy'n rhoi digon o wybodaeth gynhwysfawr ac osgoi gormod o arwyddion.

## Llosgydd Arfaethedig yn Nhywyn Crymlyn

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch yr ystyriaeth y maent wedi'i rhoi i'r cais am drwydded ar gyfer y llosgydd arfaethedig yn Nhywyn Crymlyn yng Nghastell-nedd Port Talbot? (WAQ13156)

**Sue Essex:** Cyfarfûm ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ym mis Awst i drafod ei phenderfyniad ynghylch trwydded atal a rheoli llygredd integredig ar gyfer canolfan adennill gwastraff arfaethedig Tywyn Crymlyn. Byddaf hefyd yn cwrdd â'r Farwnes Young, prif weithredwraig yr asiantaeth, er mwyn

trafod y ffaith bod angen i'r asiantaeth archwilio yn ofalus effeithiau posibl y gwaith ar yr amgylchedd ac ar iechyd wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd.

## Cysylltiadau Ffyrdd o Loegr i Ganolbarth a Gorllewin Cymru

**Nick Bourne:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chymheiriaid cyfatebol yn San Steffan ynghylch gwella cysylltiadau ffyrdd o Loegr i Ganolbarth a Gorllewin Cymru? (WAQ13157)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau i drafod amrywiaeth o faterion ynghylch trafnidiaeth sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd dros y ffin.

Cyfarfûm â'r Gweinidog dros Drafnidiaeth, John Spellar, ar 18 Gorffennaf eleni ac yn y cyfarfod hwnnw buom yn trafod dyfodol ffordd osgoi A483 Llanymynech. Mewn cyhoeddiad ar y cyd ar 16 Awst cadarnhawyd y ceid bwrw ymlaen â dylunio'r cynllun. Mae hyn yn brawf o barodrwydd y Cynulliad a Llywodraeth y DU i gydweithio ar faterion trawsffiniol.

## Fferm Wynt Cefn Croes

**Elin Jones:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar fferm wynt Cefn Croes, Ceredigion, fel y'i cyflwynwyd i'r Adran Masnach a Diwydiant? (WAQ13166) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb gan y Prif Weinidog.***

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae cais fferm wynt Cefn Croes yn gofyn am ganiatâd ar gyfer gosod 39 generadur tyrbin gwynt 1.5 megawat, adeiladu llwybrau mynediad a datblygiad ategol ar dir sy'n rhan o goedwig y Canolbarth, Cefn Croes, Ceredigion. Mewn perthynas â chynlluniau o'r fath sy'n gallu cynhyrchu dros 50 MW, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am roi caniatâd dan ddarpariaethau adran 36 Deddf Trydan 1989. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant sydd hefyd yn gyfrifol am y cais cysylltiedig arall am lein uwchben 132 cilofolt (cysylltiad â'r grid) ar gyfer cynnig Cefn Croes, dan adran 37 Deddf Trydan 1989.

Mewn achosion o'r fath pan mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant sydd i benderfynu ar y cais, ymgynghorir yn llawn â'r ymgynghorai statudol, fel awdurdodau cynllunio lleol ac ag ymgynghorai ffurfiol fel y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn yr achos hwn, Cyngor Sir Ceredigion yw'r awdurdod cynllunio lleol, ac ar 11 Gorffennaf ystyriodd pwyllgor rheoli datblygu a thrwyddedu Cyngor Sir Ceredigion y cais a phenderfynu peidio â'i wrthwynebu.

Rydym yn ymwybodol bod sawl gwrthwynebiad wedi dod i'r fei yng Nghymru ynghylch y datblygiad arfaethedig ac rydym yn ymwybodol bod angen i ni ystyried y cynigion mewn ffordd strategol a gwrthrychol, o fewn polisïau presennol y Cynulliad. Bydd ein hymateb yn ystyried sylwadau

amrywiaeth mawr o fuddiannau'r Cynulliad, gan gynnwys ein hymgynghorwyr statudol, pan fo hynny'n briodol. Rydym ni ar fin llunio ein barn derfynol, a gyflwynir i'r Adran Masnach a Diwydiant ar gyfer ei ystyried wrth benderfynu ar y cais.

## Ceisiadau a Thrwyddedu Carthu Tywod

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y mae'n disgwyl gwneud cyhoeddiad ar geisiadau a thrwyddedu carthu tywod? (WAQ13217)

**Sue Essex:** Mae'r polisi carthu agregau morol yn parhau i gael ei ystyried yn dilyn cyhoeddi drafft ar gyfer ymgynghoriad yn gynt eleni. Ni phenderfynir ar geisiadau trwydded carthu tywod cyn sefydlu'r fframwaith polisi.

## Ysbyty Cymunedol ar Gyfer Gogledd Meirionnydd a Dwyrain Dwyfor

**Peter Rogers:** Pa ran oedd ganddi wrth geisio camau lliniaru i ddatrys y pryderon a fynegwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bod ysbyty cymunedol ar gyfer Gogledd Meirionnydd a Dwyrain Dwyfor i'w hadeiladu ar orlifdir? (WAQ13564)

**Sue Essex:** Nid oedd gennyf unrhyw ran, gan nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â materion rheoli cynllunio o ddydd i ddydd. Yr awdurdod cynllunio lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am y mater dan sylw. Mae GIG Gogledd Orllewin Cymru yn edrych ar safleoedd posibl eraill i'r safle arfaethedig a gobeithir y bydd y cynllun yn mynd rhagddo cyn gynted ag sy'n bosibl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Model Maint Llawn o Siambr y Cynulliad Cenedlaethol

**Glyn Davies:** Faint o bobl sydd wedi ymweld â'r model maint llawn o Siambr y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ13119)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ystyriwyd bod y model yn elfen hanfodol o'r cam dylunio manwl a chynorthwyodd i sicrhau y bydd y broses ddylunio derfynol ar gyfer ardaloedd hanfodol hyn yr adeilad yn gweithio'n effeithiol i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Mae'r model eisoes wedi galluogi 'defnyddwyr' adeilad y Siambr i nodi ac awgrymu gwelliannau ac wedi galluogi aelodau grwp llywio polisi i ystyried agweddau penodol o'r dyluniad. Mae'n parhau i fod yn berthnasol i'r darpar ddatblygwyr/consortia.

Mae'r canlynol wedi ymweld â'r model:

- Tîm cynllunio (penseiri a chontractwyr rheoli)
- Aelodau'r Cynulliad
- Staff cynorthwyol ACau
- Aelodau'r grwp ymgynghorol ar fynediad
- Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Y Llywydd
- Y chwe thîm defnyddwyr
- Darlledwyr a'r cyfryngau.

Gyda'i gilydd, mae tua 150 o unigolion wedi ymweld â'r model o'r Siambr a'r Ystafell Bwyllgora ers mis Tachwedd 2000.

**Cyllun Prynu Cartref**

**Janet Davies:** Faint o arian sydd wedi cael ei ddyrannu i bob ardal llywodraeth leol ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref a faint y mae pob ardal wedi'i wario yn 2000-01 a 2001-02? (WAQ13125)

**Edwina Hart:** Ac eithrio'r cynllun prynu cartref gwledig, nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn dyrannu cronfeydd yn benodol ar gyfer prynu cartref. Awdurdodau lleol unigol sydd i benderfynu sut y maent am ddefnyddio eu dyraniadau grant tai cymdeithasol yn ôl blaenoriaethau a bennir yn lleol. Yn 2000-01, dyma'r lefel o gymeradwyaeth grant a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ar gyfer yr awdurdodau hynny a oedd yn nodi prynu cartref fel blaenoriaeth.

| **Awdurdod Lleol** | **Grant** |
|---|---:|
| PEN-Y-BONT AR OGWR | 312,000 |
| CAERFFILI | 171,000 |
| CONWY | 73,000 |
| SIR Y FFLINT | 146,000 |
| GWYNEDD | 394,000 |
| TORFAEN | 361,000 |
| YNYS MÔN | 198,000 |
| Cyfanswm | 1,655,000 |

Yn 2001/02, dyma'r lefel bresennol o weithgarwch prynu cartref arfaethedig ar gyfer yr awdurdodau hynny a oedd yn nodi prynu cartref fel blaenoriaeth. Gallai hyn newid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

| **Awdurdod Lleol** | **Grant Tai Cymdeithasol a ddyrannwyd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Prynu Cartref*** | **Arian Cyfatebol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Prynu Cartref Gwledig** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|
| CAERFFILI | 300,000 | - | 300,000 |
| CAERDYDD | 885,000 | - | 885,000 |
| CEREDIGION | 200,000 | 200,000 | 400,000 |
| CONWY | 120,000 | 120,000 | 240,000 |
| SIR DDINBYCH | 120,000 | 120,000 | 240,000 |
| SIR Y FFLINT | 230,000 | 130,000 | 360,000 |
| GWYNEDD | 320,000 | 320,000 | 640,000 |
| SIR FYNWY | 20,000 | 20,000 | 40,000 |
| SIR BENFRO | 360,000 | 120,000 | 480,000 |
| RHONDDA CYNON TAF | 579,000 | | 579,000 |
| YNYS MON | 200,000 | 200,000 | 400,000 |
| CYFANSWM | 3,334,000 | 1,230,000 | 4,564,000 |

* Gan gynnwys £1,230,000 ar gyfer prynu cartref gwledig

**Cyllid Ychwanegol ar Gyfer Taliadau ‘Colli Cartref’**

**Rosemary Butler:** A fydd y Gweinidog yn darparu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer taliadau ‘colli cartref’ i denantiaid mewn tai parod *(prefab)* yng Nghasnewydd? (WAQ13130)

**Edwina Hart:** Nid yw'n berthnasol pa un ai yw'r Cynulliad yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer tenantiaid yng Nghasnewydd ai peidio gan mai statud sy'n pennu taliadau colli cartref.

Comisiynodd yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau adolygiad allanol o'r darpariaethau deddfwriaethol yn 1998 ac mae bellach yn paratoi datganiad polisi ar gynigion ar gyfer diwygio yn y dyfodol. Drwy gynnwys swyddogion y Cynulliad rydym yn ceisio sicrhau pan gaiff cynigion eu cyhoeddi y byddant yn darparu sail deg a rhesymol dros dalu iawndal i bawb yr effeithir ar eu cartrefi gan gynlluniau ailddatblygu.

### Grwp Diogelwch Tân yn y Gymuned

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith y grwp diogelwch tân yn y gymuned? (WAQ13131)

**Edwina Hart:** Mae cam 1 gwaith y gweithgor diogelwch rhag tân yn y gymuned bellach wedi dod i ben a derbyniais ei adroddiad terfynol yn ddiweddar, sy'n trafod materion sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag tân ac atal tân mewn tai.

Mae'r adroddiad yn ddadansoddiad cynhwysfawr o'r materion sy'n ymwneud â diogelwch rhag tân mewn tai yng Nghymru, gan grwp a oedd yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad; y gwasanaethau tân a'r heddlu; Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; ac adrannau rheoli adeiladau a diogelu'r cyhoedd awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad yn rhoi nifer o argymhellion ar gyfer defnyddio larymau mwg sydd wedi eu cysylltu â'r trydan, systemau ysgeintwyr domestig a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth fel rhan o strategaeth diogelwch rhag tân gynhwysfawr yng Nghymru ac sy'n cysylltu â chyllideb ddrafft y Cynulliad i ddilyn trywydd argymhellion y grwp o 2002 ymlaen.

Caiff adroddiad y grwp o'r enw 'Wired for Safety', ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd, a bydd ar gael yn gyffredinol ar ôl hynny. Byddaf yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor wrth ystyried argymhellion yr adroddiad.

### Cynnwys Is-wardiau o Amddifadedd

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yr is-wardiau o amddifadedd yn Sir Ddinbych? (WAQ13132)

**Edwina Hart:** Mae panel dethol wedi cwrdd i drafod cynnwys ardaloedd is-wardiau ychwanegol yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Byddaf yn ystyried cyngor y panel ac yn gwneud penderfyniad cyn bo hir.

### Gwella Answadd Llety Preifat a Osodir ar Rent i Fyfyrwyr

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella safon y llety preifat gwael a osodir ar rent i fyfyrwyr mewn mannau yng Nghymru? (WAQ13133)

**Edwina Hart:** Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno trwyddedu ar gyfer tai amlbreswyliaeth ac rydym yn ymgynghori ar gyflwyno trwyddedu dethol ar gyfer llety rhent preifat eraill. Bydd trwyddedu yn rhoi sylw i nifer o broblemau'r sector rhent preifat gan gynnwys y rhan fwyaf o lety myfyrwyr. Yn y cyfamser, rydym yn annog awdurdodau lleol i gyflwyno cofrestru tai amlbreswyliaeth a chynlluniau achredu landlordiaid i wella safonau rheoli a chyflwr tai.

## Problemau Digartrefedd yng Nghymru

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leddfu problemau digartrefedd yng Nghymru, yn enwedig gan fod y gaeaf ar gychwyn? (WAQ13134)

**Edwina Hart:** Ers 1996, mae cyllid sydd ar gael dan adran 180 Deddf Tai 1996 wedi cael ei dargedu tuag at gynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd (yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau nad oes rhaid i neb gysgu ar y stryd yng Nghymru). Mae'r cyllid ar gael i gynlluniau'r sector gwirfoddol. Y llynedd, cyllidodd y Cynulliad 48 o gynlluniau lleol a thri mudiad cenedlaethol.

Eleni, £3.336 miliwn yw'r gyllideb waelodlin ar gyfer cynlluniau adran 180 o'i gymharu â £1.85 miliwn y llynedd. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais gynigion cyllido ar gyfer 23 prosiect arall, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ac ailgartrefu, cynlluniau bond, refeniw ar gyfer canolfannau dydd, datblygu strategaethau digartrefedd a gwasanaethau llety brys.

Ar ben hynny, ym mis Medi, cyhoeddais raglen cyllid gaeaf ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio i ddarparu cymorth i bobl sy'n cysgu ar y stryd dros fisoedd oer y gaeaf. Mae holl awdurdodau lleol Cymru wedi cael eu gwahodd i gydlynu a chyflwyno bidiau. Byddaf yn cyhoeddi'r bidiau llwyddiannus ym mis Tachwedd.

## Cynllun ‘Cefnogi Pobl’

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau i’r cynllun ‘cefnogi pobl’? (WAQ13135)

**Edwina Hart:** Ar Medi 21, cyhoeddwyd 'Cefnogi Pobl yng Nghymru: y camau nesaf tuag at weithredu'. Mae'r papur hwn yn egluro'r trefniadau tymor hir ar gyfer cefnogi pobl yng Nghymru ac yn rhoi manylion penderfyniadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad 'Cefnogi Pobl: y trefniadau cyllido a gweithredu yng Nghymru'. Mae'r papur yn rhoi arweiniad ar gamau gweithredu sydd i'w cymryd cyn y dyddiad gweithredu sef Ebrill 2003, ac mae'n gosod amserlen ar gyfer datblygu polisi ac ymgynghori ymhellach. Mae'r papur ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

## Mynd i'r Afael â'r Broblem o Losgi Ysgolion yn Fwriadol

**Ann Jones:** I ba raddau y mae'r gweithgor diogelwch tân yn y gymuned wedi ystyried mynd i'r afael â'r broblem o losgi ysgolion yn fwriadol yng Nghymru? (WAQ13165)

**Edwina Hart:** Cam 2 gwaith y gweithgor diogelwch rhag tân yn y gymuned yw archwilio materion sy'n ymwneud â phob math o losgi bwriadol yng Nghymru, a'r opsiynau mwyaf effeithiol ar gyfer rheoli nifer yr achosion.

I'r perwyl hwn, mae'r grwp wedi sefydlu is-bwyllgor llosgi bwriadol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad, awdurdodau lleol, yr heddlu a'r gwasanaethau tân, y DVLA a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Disgwyliaf y cyflwynir adroddiad i mi ar ddechrau'r flwyddyn newydd a fydd yn rhoi ei ganfyddiadau, gan gynnwys argymhellion ar gyfer cymryd camau gweithredu ar ran y Cynulliad, drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill sy'n gweithio yn y maes hwn.

## Model Maint Llawn o Siambr Drafod y Cynulliad

**Glyn Davies:** Sut cafodd y Cynulliad wared ar y model maint llawn o Siambr drafod y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ13209)

**Edwina Hart:** Nid ydym wedi cael gwared ar y model o Siambr ac Ystafell bwyllgora'r Cynulliad. Mae'r les ar gyfer yr adeilad lle cedwir y model wedi cael ei ymestyn tan 31 Rhagfyr 2001 er mwyn galluogi darpar ddatblygwyr neu gontractwyr, a allai gael eu cyflogi gan y Cynulliad i gwblhau'r dyluniad ac adeiladu adeilad y Cynulliad, edrych ar y model.

Amcangyfrifir y bydd cost yr estyniad hwnnw oddeutu £16,000. Mae manteision rhoi'r cyfle i ddarpar ddatblygwyr/contractwyr lawn ddeall y meysydd dylunio hanfodol yn drech na'r gwariant ychwanegol ac fe ddylai arwain at gyflwyno rhagor o dendrau cadarn.

## Defnyddio Pleidleisio Electronig yn Etholiadau'r Cynulliad

**Peter Rogers:** A oes cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio pleidleisio electronig o unrhyw fath yn etholiadau'r Cynulliad yn 2003? (WAQ13218)

**Edwina Hart:** Nac oes. Ni ddatganolwyd gweinyddu etholiadau'r Cynulliad. Rhoddwyd pleidleisio electronig ar brawf yn ddiweddar mewn tri etholiad lleol yn Lloegr, ond nid oes cynlluniau i'w ddefnyddio yn etholiad nesaf y Cynulliad. Mae'n debyg y byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol newydd i wneud hyn.